OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 603 (Cy.51)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2005

Wedi'u gwneud - -	*8 Mawrth 2005*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16BB(4), 17 a 126(4) a pharagraffau 2, 3 a 4 o Atodlen 7A i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2005.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "y Prif Reoliadau" ("*the Principal Regulations*") yw Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004(**2**).

Diwygio rheoliad 1(2) o'r Prif Reoliadau

2.—(1) Yn rheoliad 1(2) o'r Prif Reoliadau mewnosodir y diffiniad canlynol yn y man priodol yn ôl trefn yr wyddor

> "ystyr "aelod o'r Bwrdd" ("*Board member*") yw aelod o Fwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru a sefydlwyd yn unol â rheoliad 23 o'r Rheoliadau hyn".

(2) Hepgorir y geiriau canlynol o'r diffiniad o "aelod" ("*member*"): "neu aelod o Fwrdd CIC yn ôl y digwydd".

Dirymu rheoliad 3 o'r Prif Reoliadau a'i ailddeddfu gyda newidiadau

3. Dirymir rheoliad 3 o'r Prif Reoliadau a rhoddir y canlynol yn ei le:

(**1**) 1977 p.49. Diwygiwyd adran 126(4) gan adran 65(2) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal Cymunedol 1990 (p.19) a chan baragraff 37(6) o Ddeddf Iechyd 1999 (p.8) a chan adran 1 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003 (p.4) ("Deddf 2003"). Mewnosodwyd Adran 16BB(4) gan adran 6 o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002 (p.17). Mewnosodwyd Atodlen 7A gan adran 1 o Ddeddf 2003. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 17 a 126(4) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(**2**) O.S. 2004/905 (Cy.89).

"**Tymor gwasanaethu'r aelodau**

3.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 8 (aelodau sy'n gymwys i'w hailethol), tymor gwasanaethu unrhyw aelod, a benodwyd neu a ailbenodwyd ar 1 Ebrill 2005 neu ar ôl hynny, yw rhwng un a phum mlynedd yn ôl yr hyn a bennwyd gan y corff penodi adeg penodi'r aelod hwnnw.

(2) Pan fydd Cyngor newydd i'w sefydlu o dan adran 20A(2)(b) o'r Ddeddf ar gyfer ardal neu ran o ardal Cyngor sy'n bodoli eisoes, caiff y Cynulliad benderfynu y bydd swydd unrhyw aelod o'r Cyngor sy'n bodoli eisoes yn dod i ben yn union cyn sefydlu'r Cyngor newydd.

(3) Pan fydd Cyngor yn cael ei ddiddymu o dan adran 20(A)(2)(b) o'r Ddeddf, caiff y Cynulliad benderfynu y bydd swydd ynrhyw aelod o'r Cyngor a ddiddymwyd yn dod i ben yn union."

Ychwanegu rheoliad 3A at y Prif Reoliadau

4. Yn dilyn rheoliad 3 o'r Prif Reoliadau, mewnosodir y rheoliad 3A newydd canlynol:

"**Tymor gwasanaethu'r aelodau — trefniadau trosiannol ar gyfer aelodau a benodwyd eisoes gan y corff sy'n penodi ar 31 Mawrth 2005**

3A. Gweddill ei dymor gwasanaethu cyfredol fydd tymor gwasanaethu unrhyw aelod sydd eisoes wedi'i benodi gan y corff sy'n penodi ar 31 Mawrth 2005."

Diwygio rheoliad 8 o'r Prif Reoliadau

5.—(1) Dileir y geiriau "baragraff (2) ac i reoliad 9" yn rheoliad 8(1) o'r Prif Reoliadau a rhoddir y geiriau "baragraffau (2) a (3)" yn eu lle.

(2) Dirymir rheoliad 8(2) o'r Prif Reoliadau a rhoddir y y canlynol yn ei le:

"(2) Caiff person wasanaethu fel aelod o Gyngor am gyfnod o ddeng mlynedd ar y mwyaf."

(3) Yn dilyn y rheoliad 8(2) newydd mewnosodir

"(3) Wrth gyfrifo'r cyfnod o ddeng mlynedd y cyfeirir ato ym mharagraff (2) uchod, caiff pob cyfnod o wasanaeth fel aelod mewn unrhyw Gyngor ei agregu, gan gynnwys gwasanaeth mewn Cyngor y cafodd ei ardal ei newid ac mewn Cyngor sydd wedi'i ddiddymu ond heb fod yn gyfyngedig i'r cyfnod gwasanaeth hwnnw."

Ychwanegu rheoliad 8A at y Prif Reoliadau.

6. Yn dilyn rheoliad 8 o'r Prif Reoliadau, mewnosodir y canlynol:

"**Aelodau sy'n gymwys i'w hailethol — darpariaethau trosiannol**

8A.—(1) Caiff yr aelodau hynny a benodwyd cyn 1 Ebrill 2005, yn unol â rheoliad 3A, fwrw gweddill eu tymor gwasanaethu cyfredol, er y gall hynny olygu y byddant yn treulio mwy na'r uchafswm o ddeng mlynedd a ragnodir yn rheoliad 8 uchod.

(2) Pan fydd yr aelodau hynny y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) uchod wedi treulio eu tymor gwasanaethu cyfredol, byddant, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheoliad 8."